WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Adolygiad o Gyfranogiad – **Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri**

Blwyddyn archwilio: 2019-20

Dyddiad cyflwyno'r drafft: Chwefror 2020

Cyfeirnod y ddogfen: 1723A2020-21

Mae'r ddogfen hon wedi ei pharatoi fel rhan o waith a gyflawnwyd yn unol â swyddogaethau statudol.

Os derbynnir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae cod adran 45 yn cyflwyno'r arfer o ran ymdrin â cheisiadau sy'n ddisgwyliedig gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau yn ymwneud â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

This document is also available in English. Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Nick Selwyn, Euros Lake a Philippa Dixon.

# Cynnwys

Mae'r Awdurdod wedi sefydlu dull effeithiol sy'n seiliedig ar waith partneriaeth o ddatblygu Cynllun Eryri  ac mae mewn lle da i ddatblygu'r dull hwn wrth fynd rhagddo, ond mae angen iddo fynd i'r afael â'r heriau o ran cyllid a chapasiti a wynebir ganddo i sicrhau bod ei waith cyfranogi'n gynaliadwy.


Adroddiad cryno

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 4

Dull cyfranogi 5

Cwmpas ein Harchwiliad 6

Ein Canfyddiadau 6

Cynigion i wella 12

Atodiadau

Atodiad 1 – enghreifftiau o ddulliau cyfranogi mewn Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yn y DU 15


# Adroddiad cryno

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015

1 Mae Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (y 'Ddeddf') yn gofyn i gyrff cyhoeddus yng Nghymru ystyried effaith hirdymor eu penderfyniadau, gweithio'n well gyda phobl, cymunedau a'i gilydd, ac atal problemau parhaus fel tlodi, anghydraddoldebau o ran iechyd a'r newid yn yr hinsawdd. Mae'r Ddeddf hefyd yn rhoi 'egwyddor datblygu cynaliadwy' ar waith, sy'n dweud wrth y cyrff cyhoeddus hynny a gwmpesir gan y Ddeddf sut i fynd ati i gyflawni eu dyletswydd.

2 Mae angen i gyrff cyhoeddus sicrhau eu bod yn ystyried yr effaith y gallent ei chael ar bobl sy'n byw yng Nghymru nawr, ac yn y dyfodol, wrth wneud penderfyniadau. Mae pum peth y mae angen i gyrff cyhoeddus eu hystyried er mwyn dangos eu bod wedi gweithredu'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Nodir y rheini yn Arddangosyn 1. Bydd dilyn y ffyrdd hyn o weithio yn helpu cyrff cyhoeddus i gydweithio'n well, osgoi ailadrodd camgymeriadau'r gorffennol, a mynd i'r afael â rhai o'r heriau hirdymor sy'n wynebu Cymru.

Arddangosyn 1 – yr egwyddor datblygu cynaliadwy a'r pum ffordd o weithio




Ffynhonnell: Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 – Yr Hanfodion

# Dull cyfranogi

3 Ystyr dull cyfranogi yw cynnal trafodaethau cyfoethog ac ystyrlon gyda'r bobl yn eu cymuned, holi ynghylch yr hyn sy'n bwysig iddynt, ac adlewyrchu hynny yn y penderfyniadau a wneir gan Awdurdodau Parciau Cenedlaethol. Mae dull cyfranogi yn gofyn i sefydliadau fod yn agored i ddylanwadau gan ddinasyddion a rhanddeiliaid, gan symud i ddiwylliant o 'weithio gyda' yn lle 'gwneud drosto'. Yn wahanol i ymgynghori, mae dulliau cyfranogi'n gweithio gyda phobl yn gynharach, megis helpu i nodi problemau a datrysiadau posib, a chael cefnogaeth i barhau i gymryd rhan trwy gydol y prosesau dylunio, gweithredu a gwerthuso.

4 Gan dynnu ar ein cyflwyniad adborth diweddaraf i Bwyllgor Polisi ac Adnoddau Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (yr 'Awdurdod') ar 24 Gorffennaf 2019, Diogelwr Taith Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru a'r Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru a ddatblygwyd gan Gyfranogaeth Cymru, mae Arddangosyn 2 yn crynhoi nodweddion sefydliad sydd â dull cyfranogi effeithiol.

## Arddangosyn 2 – nodweddion corff cyhoeddus sydd â dull cyfranogi effeithiol

Caiff dull cyfranogi effeithiol ei ymgorffori drwy….

- Sefydliadau yn deall pwy sydd angen cymryd rhan a pham
- Cyrff cyhoeddus yn blaenoriaethu'r lle, amser ac adnodd ar gyfer cyfranogiad ystyrlon
- Sefydliadau yn cynllunio gweithgareddau cyfranogi i sicrhau bod dinasyddion yn gallu dylanwadu ar bolisi a'r gwaith o gynllunio a chyflenwi gwasanaethau o'r cyfnod cynharaf
- Dinasyddion yn deall perthnasedd cyfranogi i'w bywydau ac yn ei weld fel ffordd o sbarduno newid
- Sefydliadau yn esbonio pa effaith y mae cyfranogi wedi'i chael ar eu penderfyniadau, polisïau a gwasanaethau
- Dulliau yn sicrhau bod dinasyddion mewn sefyllfa dda i gymryd rhan gan eu bod wedi'u haddasu i ddiwallu eu hanghenion
- Canfyddiadau o weithgareddau cyfranogi yn cael eu defnyddio i lunio a gwella polisïau a'r broses o wneud penderfyniadau
- Prosiectau presennol yn dangos bod dulliau cyfranogi da yn ychwanegu gwerth ac yn arbed costau hirdymor
- Sefydliadau yn sicrhau bod amrywiaeth lawn o randdeiliaid yn cael eu cynrychioli ac yn gallu cymryd rhan
- Sefydliadau yn meddu ar gydberthynas aeddfed ac ymddiriedus â'u rhanddeiliaid
- Y rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn cael eu dal i gyfrif o ganlyniad i fewnbwn gan y cyhoedd, sy'n helpu i gryfhau tryloywder ac ymddiriedaeth
- Staff, sefydliadau a dinasyddion yn ystyried bod cyfranogi'n bleserus a gwerthfawr
- Dulliau cyfranogi yn helpu gwaith i fod yn gydgysylltiedig ac integredig o fewn y sefydliad ac iddo beidio â bod mewn seilo
- Cyrff cyhoeddus yn defnyddio canlyniad eu cyfranogiad i weithio mewn modd cydgynhyrchiol i gynllunio a chyflenwi gwasanaethau
- Sefydliadau yn cwblhau gwerthusiad amserol o gyfranogiad i ddysgu am yr hyn sy'n gweithio a nodi'r hyn y mae angen ei wella

5 Dylai awdurdodau felly osod eu hagenda drwy wrando ar bobl, eu cynnwys mewn ffordd ystyrlon drwy gydol y broses benderfynu, a bod yn agored i newid go iawn o ganlyniad i hynny. Mae'n hanfodol fod gweithgareddau a mecanweithiau ar gyfer cynnwys pobl wedi'u cynllunio, eu monitro a'u hadrodd yn briodol, fel y gallant gael eu datblygu, eu herio neu eu hyrwyddo. Mae sicrhau bod gan staff a sefydliadau'r sgiliau a strwythurau sydd eu hangen, yn ogystal â'r amser ac adnoddau, i gynnwys y cyhoedd mewn ffordd effeithiol yn hanfodol. Mae hyn yn sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn adlewyrchu'r hyn sy'n bwysig i'r cyhoedd a'u hanghenion, yn hytrach na'r hyn rydym wedi credu'n draddodiadol ei fod yn gweithio orau.

# Cwmpas ein Harchwiliad

6 O ystyried yr heriau i gyrff cyhoeddus o ran ymgorffori'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru rydym wedi adolygu dull a rheolaeth yr Awdurdod o ran cynnwys rhanddeiliaid wrth gynnig newidiadau i wasanaethau a pholisi, ac wrth gynllunio gweithgareddau. Gwnaethom graffu'n fwy manwl ar sut mae'r Awdurdod yn cynnwys rhanddeiliaid wrth ddatblygu'r Cynllun Rheoli newydd i Barc Cenedlaethol Eryri (y 'Cynllun'). Mae'r Cynllun yn darparu'r fframwaith polisi strategol ar gyfer y Parc Cenedlaethol cyfan ac yn cynnwys cynllun gweithredu penodol a fydd yn cael ei weithredu dros y pum mlynedd nesaf. Defnyddir amser staff fel adnodd i ddatblygu'r Cynllun ac mae nifer o aelodau staff yn gweithio ar y gwaith o'i lunio.

# Ein Canfyddiadau

7 Yn gyffredinol, rydym wedi casglu bod **yr Awdurdod wedi sefydlu dull effeithiol sy'n seiliedig ar waith partneriaeth o ddatblygu Cynllun Eryri ac mae mewn lle da i ddatblygu'r dull hwn wrth fynd rhagddo, ond mae angen iddo fynd i'r afael â'r heriau o ran cyllid a chapasiti a wynebir ganddo i sicrhau bod ei waith cyfranogi'n gynaliadwy**. Daethom i'r casgliad hwn oherwydd darganfuom y canlynol.

## Mae'r Awdurdod wedi cynnwys partneriaid allweddol i greu Cynllun Eryri ar y cyd mewn ffordd effeithiol ond mae cynnwys yr holl ystod o fuddiannau yn ei waith ehangach yn parhau i fod yn her barhaus i'r sector cyhoeddus.

8 Ar y cyfan, rydym yn cydnabod bod yr Awdurdod wedi datblygu dull cyfranogi da ar gyfer y gwaith o ddatblygu'r Cynllun Rheoli Parc newydd. Cynhaliodd yr Awdurdod yr ymgynghoriad mwyaf eang yn ei hanes ac mae wedi defnyddio nifer o'r prosesau a ddefnyddiwyd i ddatblygu'r Cynllun Datblygu Lleol a Chynllun Partneriaeth Eryri yn ei waith ar y Cynllun Rheoli Parc newydd. Ceisiodd yr

Awdurdod ymgysylltu â grwpiau/buddiannau anodd eu cyrraedd fel ysgolion lleol, grwpiau/cymdeithasau pobl ifanc a ffermwyr ifanc, er enghraifft. Creodd yr Awdurdod hefyd is-fforwm Asesu Cydraddoldeb ac Effaith, y mae wedi cael cyngor ganddo er mwyn gwneud y Cynllun yn hawdd ei ddarllen, yn ddealladwy ac yn hygyrch. Wrth ddatblygu'r Cynllun newydd, mae'r Awdurdod hefyd wedi datblygu matrics ymgynghori sy'n helpu i ddangos y broses ei fod wedi ei dilyn er mwyn nodi a blaenoriaethu rhanddeiliaid allweddol a phartïon â diddordeb. Yn gadarnhaol, mae'r matrics hefyd yn galluogi ystyriaeth o sut i addasu dulliau cyfathrebu ar gyfer rhanddeiliaid amrywiol.

9 Mae dull yr Awdurdod o ymgysylltu â rhanddeiliaid yn cael ei bennu gan ddull partneriaeth a chynhelir cyfarfodydd rheolaidd â rhanddeiliaid allweddol er mwyn cael ymrwymiad cadarn ganddynt. Sefydlodd yr Awdurdod Fforwm Eryri (fforwm partneriaeth) ar gyfer y pwrpas penodol o lunio a chyd-gynhyrchu'r Cynllun newydd. Mae aelodau'r fforwm yn cwrdd bob chwarter i benderfynu ar gyfeiriad a blaenoriaethau'r cynllun yn y dyfodol. Mae'r Cynllun drafft yn adlewyrchu safbwyntiau aelodau Fforwm Eryri, ond mae cynnydd wedi bod yn araf - mae Cynllun Eryri yn gynllun pum mlynedd sydd wedi cymryd pedair blynedd i'w greu.

10 Yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus cychwynnol, cynhaliodd yr Awdurdod weithdai mewnol yn canolbwyntio ar themâu, gyda staff yr Awdurdod a'r cynghorwyr statudol allweddol Cadw a Cyfoeth Naturiol Cymru yn cymryd rhan. Helpodd y gweithdai i lywio drafft terfynol o'r Cynllun Rheoli Parc, a fydd yn destun ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol yn gynnar yn 2020. Mae'r Awdurdod yn bwriadu dilyn proses sy'n debyg i'r un a ddefnyddiwyd ganddo wrth fabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol. Mae'r cynllun yn 'uchelgeisiol ond yn realistig' ac mae'r Awdurdod yn ymwybodol fod angen iddo sicrhau bod ganddo'r mesurau canlyniadau cywir yn eu lle er mwyn gallu barnu cynnydd, yn ogystal â dangos effaith cyfranogi. Er enghraifft, dylai'r dangosydd perfformiad presennol sy'n nodi bod '100% o'r holl bartïon â diddordeb yn fodlon ar y cyfle i gymryd rhan / ymgysylltu' adlewyrchu bod y rhain yn safbwyntiau partneriaid sy'n mynychu Fforwm Eryri yn lle'r 'holl bartïon â diddordeb'.

11 O fewn drafft y Cynllun, mae'r ffocws ar y Gymraeg yn ganmoladwy. Mae'r rhan fwyaf o'r staff yn gallu cyfathrebu yn y ddwy iaith, ac mae'r camau ymlaen a gynigiwyd yng Nghynllun Eryri, a gefnogir gan ymatebion i'r Adroddiad Ymgynghori, yn nodi'r Gymraeg a'r defnydd ohoni fel blaenoriaeth allweddol ar gyfer yr ardal. Mae'r Awdurdod hefyd yn dechrau gweithio drwy'r broses o benderfynu ar y ffordd orau o ledaenu'r Cynllun newydd a sut i ymgysylltu â phobl a chymunedau lleol a'u cynnwys.

12 Fodd bynnag, nid yw'r Awdurdod yn galluogi pawb sydd efallai am gyfrannu mewn ieithoedd/ffyrdd gwahanol i wneud hynny. Nid oes unrhyw ddarpariaeth drwy gydol yr ymgynghoriad sy'n annog neu'n derbyn cyfraniadau yn Iaith Arwyddion Prydain neu ieithoedd nad ydynt yn Gymraeg na Saesneg. Yn ogystal, er nad yw llawer o Bobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig yn byw yn yr ardal, mae gan yr Awdurdod gyrhaeddiad a chyfrifoldeb ehangach sy'n mynd y tu hwnt i'w ffiniau. Mae angen iddo wneud mwy i ehangu'i apêl ac annog pobl o ardaloedd mwy difreintiedig yn

economaidd neu’n gymdeithasol, gan gynnwys y rheini sydd efallai ar gyflogau isel neu heb gyflog o gwbl, i ddefnyddio'r Parc.

13 O ganlyniad, er bod yr Awdurdod yn cydnabod y gallai wneud mwy i gynnwys grwpiau anodd eu cyrraedd, rydym wedi casglu bod angen iddo allu dangos ei ystyriaeth ynghylch a yw’n cynnwys grwpiau cymunedol fel y rhai a amlinellir uchod a sut. Bydd gweithio drwy grwpiau cynrychioliadol ar draws yr ardal leol a rhanbarth ehangach Gogledd a Chanolbarth Cymru yn helpu'r Awdurdod i ganfod ffordd effeithlon o ymgysylltu â grwpiau cynrychioladol trosfwaol a all roi mewnwelediad a her o ran effeithiolrwydd dulliau cyfranogi presennol ar gyfer grwpiau anodd eu cyrraedd. Hyd yn hyn, mae gwaith cyfranogi wedi canolbwyntio ar ardal yr Awdurdod a'i phreswylwyr. Tra oedd elfen yr ymgynghoriad cychwynnol yn eang, nid yw hyn o hyd yn ddigonol ar gyfer disgwyliadau'r Ddeddf, sy'n gofyn i gyrff cyhoeddus gynnwys yr ystod gyfan o ddefnyddwyr a rhanddeiliaid posib.

14 Mae diffinio 'pobl' i’w cynnwys yn heriol oherwydd nid yw cyfranogi ond am y bobl sy'n byw yn ardal y Parc, y busnesau sy'n gweithio yn ardal y Parc a phartneriaid awdurdod lleol allweddol, ond hefyd y boblogaeth ehangach. O ganlyniad, mae angen i'r Awdurdod ystyried twristiaid / ymwelwyr â'r Parc Cenedlaethol. Mae nifer o'r rhain yn dod o’r tu allan i Gymru, a all ei gwneud yn heriol ymgysylltu â nhw. Mae hefyd tensiwn rhwng dau brif ddiben yr Awdurdod – sef gwarchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol y Parc Cenedlaethol, a hyrwyddo cyfleoedd i'r cyhoedd ddeall a mwynhau nodweddion arbennig y Parc.

15 Bu 100% cynnydd mewn twristiaeth yn y deng mlynedd diwethaf gyda mwy o bobl yn ymweld â'r Wyddfa a’i mwynhau. Mae hyn wedi cyfrannu at gynhyrchu £70 miliwn i'r economi leol bob blwyddyn ond mae mwy o ymwelwyr yn cael effaith niweidiol ar yr amgylchedd. Wrth fynd ymlaen, mae rheoli effaith bosib mwy o ymwelwyr – gan wneud twristiaeth a'i heffaith ar y Parc yn gynaliadwy o safbwynt yr amgylchedd – yn parhau i fod yn her allweddol i'r Awdurdod a'i bartneriaid, gan gynnwys Llywodraeth Cymru.

16 Yn gadarnhaol, mae'r Awdurdod wedi cymeradwyo creu Swyddog Twristiaeth Gynaliadwy er mwyn helpu i ganolbwyntio'i waith cyfranogi yn y maes pwysig hwn yn y dyfodol. Ar y cyfan, mae'r Awdurdod yn defnyddio blaenoriaethau ‘Gwerthfawr a Chydnerth’ Llywodraeth Cymru i lywio sut mae'n cynnwys pobl yn ei waith a'r broses o wneud penderfyniadau. Fodd bynnag, mae'n ceisio cadw cydbwysedd rhwng effaith twristiaeth gynyddol yn ardal y Parc a chadw bioamrywiaeth a threftadaeth ddiwylliannol gwahanol Eryri.
Nid oes modd cadw'r cydbwysedd hwn yn hawdd gan fod yr Awdurdod yn un o nifer o gyrff lleol a chenedlaethol sy'n hyrwyddo ardal y Parc.

17 Mae wardeiniaid yn rhan bwysig o'r gymuned ac mae ailffocysu'r gwasanaethau hyn yn cynnig cyfle i ehangu ffocws cyfranogi eu rôl. Yn hanesyddol, mae tîm y wardeiniaid wedi gwneud gwaith ymgysylltu trwy, er enghraifft, ymgysylltu â grwpiau lleol ac ysgolion. Nid yw'r strwythur newydd wedi'i ymgorffori’n llawn nac ar waith, ond bydd y dull newydd sy’n canolbwyntio ar y rôl ddiwygiedig - creu incwm, gwaith prosiect, rheoli tir, rheoli asedau, a chyfryngu rhwng defnyddwyr tir,

cerddwyr, twristiaid a ffermwyr - a gwaith addysg yn helpu i foderneiddio'r gwasanaeth, gan roi mwy o ffocws ar gwsmeriaid iddo. Mae cynlluniau ardal warden yn rhoi cyfle i gofnodi gweithgareddau cyfranogi ar lawr gwlad. Mae cynnwys grwpiau anodd eu cyrraedd yn effeithiol, fel grwpiau mynediad i'r anabl a chymunedau dan anfantais yn byw ar ymylon y Parc, yn parhau i fod yn her.

18 Yn debyg, mae'r tîm ymgysylltu a'r pwyslais wedi'i ailffocysu ar sawl llinyn cyfranogiad yn cynnig cyfle i adeiladu ar waith cyfranogi hanesyddol gryf yr Awdurdod gyda chynghorau tref a chymuned. Mae ei waith arfaethedig ar Wirfoddoli a Lles a Thwristiaeth Gynaliadwy yn cynnig platfform i ddatblygu ac amrywio cynnig ac apêl yr Awdurdod i bartneriaid iechyd cyhoeddus. Mae'r rôl Wirfoddoli a Lles yn enwedig yn cynnig cyfle i fabwysiadu dull mwy strategol o ddatblygu cynnig yr Awdurdod mewn perthynas â'r agenda iechyd a lles cyhoeddus.

19 Fodd bynnag, mae gan yr Awdurdod waith i'w wneud i lunio canfyddiadau'r cyhoedd, gyda dinasyddion yn ystyried eu cyngor lleol yn hytrach na'r Awdurdod fel y ffactor sy'n 'sbarduno newid' ar eu cyfer (er bod yr Awdurdod yn ceisio delio â phroblemau cymunedol nad yw partneriaid eraill yn y sector cyhoeddus yn eu gweld yn bwysig neu nad oes ganddynt yr adnoddau i roi sylw iddynt). Er enghraifft, mae'r Awdurdod wedi ysgwyddo'r cyfrifoldeb o fynd i'r afael â phroblemau yn y gymuned leol fel delio  â phroblemau gyda phriffyrdd er mwyn gwella mynediad i'r Parc, buddsoddi mewn cysgodion bws newydd, ac ymateb i bryderon gan gynghorau tref a chymuned. Yn aml, ni chydnabyddir yr Awdurdod na roddir clod iddo am y gwaith hwn a gallai wneud mwy i gyhoeddi'i effaith.

20 Mae dau Fforwm Mynediad Lleol yr Awdurdod yn cefnogi gwaith ac yn rhoi cyfle i ymgysylltu â thirfeddianwyr, grwpiau defnyddwyr hamdden ac eraill. Fodd bynnag, mae trefniadau llywodraethu'n nodi mai prif rôl y Fforymau Mynediad yw canolbwyntio ar gyflawni cyfrifoldebau o dan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000. Fodd bynnag, nid yw'r ffocws gweithredol presennol yn galluogi'r Awdurdod i weithio i'r egwyddor o 'wneud i bob cyswllt gyfrif', sef defnyddio'r holl waith cyfranogi gyda rhanddeiliaid i helpu i gefnogi a llywio cynllunio strategol.

## Mae'r amgylchedd gweithredu presennol yn golygu ei bod yn ansicr pa mor gynaliadwy yw dull cyfranogi'r Awdurdod

21 Mae effaith cyni yn parhau i fod yr her fwyaf sylweddol sy'n wynebu'r holl awdurdodau parciau cenedlaethol yng Nghymru. Mae effaith fyrdymor cyllid Llywodraeth Cymru a dyrannu cyfalaf a refeniw ychwanegol yn agos at ddiwedd y flwyddyn yn parhau i effeithio ar allu'r Awdurdod i gynllunio ar gyfer yr hirdymor. O ganlyniad, mae'r Awdurdod wedi ceisio nodi ffynonellau cyllid amgen i wrthbwyso gostyngiadau mewn grant craidd gan Lywodraeth Cymru. Mae'r pwysau ariannol hyn yn debygol o barhau yn y tymor canolig. Fodd bynnag, mae'r amgylchedd gweithredu a heriau presennol yn golygu ei bod yn ansicr pa mor gynaliadwy yw

dull cyfranogi'r Awdurdod, a ph'un a all yr Awdurdod fabwysiadu safbwynt hirdymor digonol.

22 Mae capasiti wedi'i ymestyn i'r eithaf ac mae staff yn gwneud ymdrech ychwanegol i sicrhau bod gwasanaethau yn parhau i weithredu. Yn hanfodol, mae'r dull partneriaeth sy'n sail i Gynllun Eryri wedi arwain at fwy o berchenogaeth o'r Cynllun gan y partneriaid, a fydd yn creu mwy o wydnwch ac effeithlonrwydd wrth roi'r Cynllun ar waith. Fodd bynnag, mae swyddogion yn cydnabod diffyg capasiti o hyd i ddarparu ei wasanaethau craidd ar y cyd a chynnwys yr holl bartïon â diddordeb. Testun pryder arbennig yw'r ffaith y gallai'r cyfle i brif ffrydio buddiannau gwaith ymgysylltu da (ac i raddau llai, gwaith cyfranogi da) gael ei golli neu ei oedi oherwydd lefel y newid yn yr Awdurdod. Ar hyn o bryd, mae heriau ariannol yn golygu nad yw gweithgarwch cyfranogi yn gwella capasiti'r Awdurdod nac yn datblygu galluoedd dinasyddion i wneud mwy.

23 Er enghraifft, mae'r symud rhwng rolau ac ail-gydbwyso portffolios o'r Prif Weithredwr a'r cyfarwyddwyr i lawr drwy dimau, gan gynnwys staff rheng flaen, yn effeithio ar amseroldeb meysydd gwaith allweddol a'r broses o'u cyflawni. Mae hyn yn arbennig o wir ar gyfer gwasanaethau cynllunio, sydd wedi wynebu problemau sylweddol o ran capasiti a newid yn ystod y misoedd diweddar. Mae hyn yn golygu bod darpariaeth barhaus ac amseroldeb y gwaith o gyflawni gweithredoedd yn cael eu hatal ar brydiau a'u hoedi'n aml. Mae angen gosod y newidiadau byrdymor hyn yn eu cyd-destun ac ystyried effaith bosibl gweithlu sy'n heneiddio a staff allweddol sy'n nesáu at oedran ymddeol. Mae cynllunio ar gyfer olyniaeth yn canolbwyntio ar 'ddatblygu eich staff eich hun' - datrysiad gwerth chweil i broblemau recriwtio ond un sy'n gosod disgwyliadau mawr ar staff sy'n gymharol iau a dibrofiad i 'ddysgu yn y swydd'. Mae'r gystadleuaeth gynyddol rhwng cyrff cyhoeddus i recriwtio staff dwyieithog profiadol yn ei gwneud yn anodd i'r Awdurdod a chyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru ddenu a chadw pobl o'r ansawdd iawn sydd â'r sgiliau a'r wybodaeth gywir. Mae hyn yn heriol ar gyfer yr Awdurdod o ystyried ei gyllid a'r angen i reoli effaith bosibl cynnydd mewn cyflogau.

24 Mae gwaith prosiect byrdymor yn parhau i fod yn ffocws i staff sy'n ymgymryd â gwaith cyfranogi. Mae cyfran y staff sy'n cyflawni gwaith prosiect eisoes yn uchel iawn a disgwylir iddi dyfu o ganlyniad i rôl y wardeiniaid a aildrefnwyd. Ar hyn o bryd, mae staff yn amcangyfrif bod ganddynt 20 cynllun a phrosiect gwahanol gyda 13 o staff yn y tîm Cadwraeth yn unig (allan o dîm o 20) ar gontractau prosiect cyfnod penodol a bod oddeutu 20% o'r holl swyddi ar draws y sefydliad yn darparu gwaith ar sail prosiectau. Bydd twf mewn contractau byrdymor yn golygu na fydd yr Awdurdod yn gallu sicrhau'r effaith fwyaf posibl. Nid oes unrhyw sicrwydd yn gysylltiedig â phrosiectau ac mae symud mwy o staff at waith ar sail prosiectau yn cyflwyno risg gynhenid os bydd lleihad mewn cyfleoedd allanol. Mae'r Awdurdod yn cydnabod bod risg y bydd ei hunaniaeth gorfforaethol yn cael ei lleihau os bydd mwy o bwyslais ar waith ar sail prosiectau. Nid yw'n glir sut mae'r Awdurdod yn bwriadu prif ffrydio cyfranogiad er mwyn cynnwys pawb drwy ddefnyddio cyfranogiad anffurfiol a ffurfiol i hybu gwelliant.

25 O safbwynt mesurau lliniaru, mae swyddogion yn cyfeirio at gynlluniau lle fel Partneriaeth yr Wyddfa, ac, yn wir, fersiwn newydd Cynllun Eryri, fel ffordd o gynnal hunaniaeth yr Awdurdod drwy bennu pa brosiectau y dylai'r Awdurdod wneud cynnig ar eu cyfer. Mae'r Awdurdod yn bwriadu cynnal ac atgyfnerthu ei 'linyn euraidd' i sicrhau bod y Cynllun Corfforaethol a chynlluniau gwaith unigol yn ystyried Cynllun Eryri unwaith iddo gael ei fabwysiadu. Gan fod gweithgarwch cyfranogi yn dal i gael ei gynnal fesul prosiect, prin yw'r cyfleoedd i gynyddu capasiti, atgyfnerthu negeseuon allweddol, a chynnal hunaniaeth gorfforaethol gydlynol y gall y cyhoedd ymwneud â hi.

26 Ar hyn o bryd, caiff llawer o waith cyfranogi ac ymgysylltu ei gynnal gyda rhywfaint o orgyffwrdd – er enghraifft, y gorgyffwrdd a'r dyblygu posibl wrth ddatblygu canllawiau cynllunio atodol, cynlluniau lle, gwaith y Fforymau Mynediad Lleol, y tîm Cadwraeth, a'r gwasanaeth Wardeiniaid a aildrefnwyd. Yn yr un modd, mae'r tîm Cadwraeth, Coetiroedd ac Amaethyddiaeth yn cyflawni gwaith sylweddol o ran ymgysylltu rheng flaen, rhannu gwybodaeth a chyfranogi, ond mae llawer o'r gwaith hwn ar lefel un i un unigol ac nid yw bob amser yn cael ei gofnodi na'i ddefnyddio'n strategol. Mae adeiladu ar waith Fforwm Eryri ac ehangu'r dull gweithredu ar ganllawiau cynllunio atodol a chynlluniau Lle ar lefel cymuned, defnyddio ac ehangu gwaith y Fforymau Mynediad Lleol, a ffocws a lledaeniad cynlluniau ardal y Wardeiniaid yn cynnig cyfleoedd gwirioneddol i sicrhau bod y gwaith cyfranogi yn cael ei brif ffrydio a'i ddefnyddio'n strategol i gynnal gwelliant.

27 Mae'r broses o ddangos gallu'r Awdurdod i wneud cyfraniad mwy at iechyd cyhoeddus ac, yn fwy cyffredinol, gyda Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn datblygu'n araf. Nid yw rhagnodi cymdeithasol wedi datblygu'n dda iawn, ac mae angen gwneud mwy o waith gydag ymarferwyr cyffredinol i annog y defnydd o'r Parc Cenedlaethol wrth fynd i'r afael ag anghenion iechyd. Mae'r rôl gwirfoddoli a llesiant newydd yn y tîm ymgysylltu yn rhoi cyfle i adolygu cynnig yr Awdurdod ac i gydlynu a datblygu'r gweithgareddau hyn yn well.

## Cynigion i wella

28 Yn hytrach na rhestru cynigion i wella, rydym wedi llunio hunanasesiad i staff ac aelodau'r Awdurdod ei ddefnyddio i nodi cryfderau a gwendidau ei ddull gweithredu presennol o ran cyfranogi. Gellir defnyddio'r hunanasesiad hwn ar lefel strategol gorfforaethol ond hefyd ar brosiectau unigol i asesu cynnydd yr Awdurdod ac i weld ble mae angen newid er mwyn sicrhau bod y gwaith cyfranogi yn cael ei brif ffrydio a'i fod yn gynaliadwy. Disgwyliwn i'r Awdurdod ddefnyddio'r offeryn hwn i werthuso ei berfformiad cyfredol ac i nodi sut y gall wella ei waith.

Arddangosyn 3: hunanasesu

| Cam gweithredu | Rydym yn gwneud hyn yn dda ar bob achlysur ac nid oes angen i ni wella ein dull gweithredu o gwbl | Rydym yn gwneud hyn yn dda ar adegau ond mae cyfleoedd i wella ein dull gweithredu | Nid ydym yn gwneud hyn yn dda ac mae angen i ni wella ein dull gweithredu |
|---|---|---|---|
| Mae gennym ddull cyfranogi strategol sy'n cyfeirio ein holl weithgarwch | | | |
| Rydym yn deall pwy sydd angen eu cynnwys a pham | | | |
| Rydym yn blaenoriaethu lle, amser ac adnoddau ar gyfer cyfranogi ystyrlon | | | |
| Rydym wedi cynllunio ein gweithgarwch cyfranogi i sicrhau bod dinasyddion a phartneriaid yn gallu dylanwadu ar ein polisïau a'n cynlluniau | | | |

| Cam gweithredu | Rydym yn gwneud hyn yn dda ar bob achlysur ac nid oes angen i ni wella ein dull gweithredu o gwbl | Rydym yn gwneud hyn yn dda ar adegau ond mae cyfleoedd i wella ein dull gweithredu | Nid ydym yn gwneud hyn yn dda ac mae angen i ni wella ein dull gweithredu |
|---|---|---|---|
| Rydym wedi cynllunio ein gweithgarwch cyfranogi i sicrhau bod dinasyddion a phartneriaid yn gallu dylanwadu ar ein dull o gynllunio a darparu gwasanaethau | | | |
| Rydym wedi egluro wrth ddinasyddion a phartneriaid sut y bydd eu cyfranogiad yn helpu i wella eu bywydau | | | |
| Rydym wedi egluro wrth ddinasyddion a phartneriaid sut y bydd eu cyfranogiad yn arwain at newid | | | |
| Rydym yn egluro'r effaith mae cyfranogi wedi'i chael ar ein penderfyniadau, polisïau a gwasanaethau | | | |
| Rydym yn teilwra ein dull cyfranogi i sicrhau y gall yr holl ddinasyddion a phartneriaid gymryd rhan | | | |
| Rydyn yn defnyddio'r canfyddiadau o weithgarwch cyfranogi i lunio a gwella'r dull o wneud polisïau a phenderfyniadau | | | |
| Gallwn ddangos bod ein dull cyfranogi yn ychwanegu gwerth at yr hyn a wnawn | | | |
| Gallwn ddangos bod ein dull cyfranogi yn arbed costau hirdymor | | | |
| Rydym yn sicrhau bod amrywiaeth eang o randdeiliaid yn gallu cyfranogi at yr hyn a wnawn a'n dull o'i wneud | | | |
| Mae gennym berthynas aeddfed a ffyddlon â'n holl randdeiliaid | | | |

| Cam gweithredu | Rydym yn gwneud hyn yn dda ar bob achlysur ac nid oes angen i ni wella ein dull gweithredu o gwbl | Rydym yn gwneud hyn yn dda ar adegau ond mae cyfleoedd i wella ein dull gweithredu | Nid ydym yn gwneud hyn yn dda ac mae angen i ni wella ein dull gweithredu |
|---|---|---|---|
| Mae ein dull cyfranogi yn golygu y gall ein partneriaid ein dwyn i gyfrif am y penderfyniadau a wnawn | | | |
| Mae ein dull cyfranogi yn golygu y gall dinasyddion ein dwyn i gyfrif am y penderfyniadau a wnawn | | | |
| Mae ein dull cyfranogi yn bleserus a gwerth chweil | | | |
| Mae ein partneriaid o'r farn fod ein gwaith cyfranogi yn bleserus a gwerth chweil | | | |
| Mae ein dinasyddion o'r farn fod ein gwaith cyfranogi yn bleserus a gwerth chweil | | | |
| Mae ein dull cyfranogi yn ein helpu i integreiddio ein gwaith er mwyn osgoi seilos | | | |
| Rydym yn defnyddio canlyniad ein gwaith cyfranogi i gydweithio er mwyn cynllunio a darparu gwasanaethau | | | |
| Rydym yn gwerthuso ein gwaith cyfranogi yn amserol er mwyn gweld beth sy'n gweithio | | | |
| Rydym yn gwerthuso ein gwaith cyfranogi yn amserol er mwyn gweld beth sydd angen ei wella | | | |

# Atodiad 1

## Enghreifftiau o ddulliau cyfranogi yn Awdurdodau Parciau Cenedlaethol y DU

Mae Parciau Cenedlaethol Lloegr wedi llunio canllawiau ar gyfer sefydliadau ac unigolion sydd am gyfrannu at ddatblygu Cynlluniau Rheoli Parciau Cenedlaethol. Gweler nationalparksengland./get-involved, get-involved-in-a-national-park-management-plan a chyhoeddiadau Parciau Cenedlaethol Lloegr. Mae hyn yn gwrthgyferbynnu'n llwyr â'r prinder cynnyrch gan Barciau Cenedlaethol Cymru, er gwaethaf buddiannau cydweithio ar faterion cyffredin.

Mae parciau cenedlaethol mewn mannau eraill yn defnyddio cyfryngau lluosog a chymysg i ymgysylltu â chymunedau ac atal problemau. Gofynnodd Awdurdod Parc Cenedlaethol South Downs i'w gymunedau ateb y cwestiwn canlynol: **Sut rydych chi'n newid ymddygiad cerddwyr cŵn anghyfrifol heb eu pardduo?** Gweler yr atebion yma ac maent yn dangos beth y gellir ei gyflawni drwy ddefnyddio dull gwahanol o gynnwys arbenigwyr pwnc a busnesau lleol er mwyn dod o hyd i ddatrysiadau.

Mae Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu Awdurdod Parc Cenedlaethol Cairngorms 2018-2022 yn cynnwys rhai nodweddion allweddol sy'n galluogi'r awdurdod parc cenedlaethol hwn i gyflawni gweithgarwch cyfranogi'n fwy effeithiol. Ymhlith y nodweddion mae:

- cynnwys sylfaen o wybodaeth a data ar ba mor effeithiol mae'r awdurdod parc cenedlaethol yn cynnwys y cyhoedd, mesur ymwybyddiaeth pobl o'r hyn sy'n digwydd yn y parc cenedlaethol, sut maent yn hoffi cymryd rhan, a barn pobl am wasanaethau;
- ymrwymiad i werthuso gwaith ymgysylltu, gan fesur canlyniadau lle bo'n bosib, profi effaith, a dysgu a gwella'n barhaus;
- gweithgarwch cyfranogi sy'n integreiddio gwaith partneriaid cyfagos ac ymgyrchoedd cenedlaethol, er enghraifft BIG Weekend Scottish Nature; ac
- un o'r prif flaenoriaethau yw bod yr awdurdod parc cenedlaethol yn ysbrydoli cenedlaethau newydd i fod yn hyrwyddwyr y parc a chymryd yr awenau ar brosiectau cymunedol yn y dyfodol.

Mae adroddiad Awdurdod Parc Cenedlaethol North York Moors ar fesur effaith iechyd a llesiant ym mis Tachwedd 2018 yn amlygu pwysigrwydd cynnwys rhanddeiliaid a'r gwahaniaeth mae'n ei wneud i waith yr Awdurdod. Mae enghreifftiau'n cynnwys:

- sut mae'r Awdurdod wedi cynnwys gweithgarwch cyfranogi yn ei gyfrifiadau budd cymdeithasol o fuddsoddi, a'r gwerth y mae barn pobl yn ei ychwanegu. Caiff newidiadau penodol ar ôl ymgynghori eu holrhain a'u gwerthfawrogi.
- mae pobl yn ymgysylltu'n well pan fyddant yn deall y buddiannau llesiant y gallent eu profi ac ar ôl cael gwybodaeth am rinweddau arbennig y parc. Mae hyn yn cynnwys dweud wrth bobl am yr hyn y mae'r Awdurdod Parc Cenedlaethol yn ei wneud a sut yn union y gallant gymryd rhan.

- ym marn yr Awdurdod caiff y data gorau ei gasglu fel rhan arferol o waith yr Awdurdod neu fel rhan ganolog o unrhyw ymyrraeth, menter, rhaglen neu weithgarwch. Credant fod pobl yn llai parod i ddarparu adborth neu safbwyntiau mewn digwyddiadau penodedig ac mae angen iddynt ddeall pa mor berthnasol yw cyfranogi i'w bywydau a chael eu sicrhau y bydd yr Awdurdod yn rhoi newidiadau ar waith.

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru